

HORIZON NUCLEAR POWER

Prosiect Wylfa Newydd

Datganiad o Ymgynghori Cymunedol

Fersiwn 2: Ionawr 2016

Prosiect Wylfa Newydd –Gorsaf bŵer niwclear newydd a gynigir ar Ynys Môn

Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn yn ymwneud â chynigion Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (Horizon) i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn – Prosiect Wylfa Newydd. Rydyn ni wedi diweddarau fersiwn mis Medi 2014 o'n Datganiad o Ymgynghori Cymunedol gan ein bod yn newid rhai o'r ffyrdd rydyn ni'n bwriadu ymgynghori â'r gymuned leol ac â grwpiau ac unigolion eraill rydyn ni'n credu y byddai'n bosibl iddyn nhw deimlo effeithiau neu fanteision o ganlyniad i'n cynigion. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud oherwydd bod amseru'r ymgynghoriad wedi newid, bod rhagor o waith ymgysylltu â'r gymuned wedi cael ei gynnwys, newidiadau posibl i ddeddfwriaeth cynllunio genedlaethol, a chyfle i weithio gyda Swyddogion Cynnwys y Gymuned Ynys Môn.

Pwy ydy Horizon, a beth ydy Prosiect Wylfa Newydd?

Mae grŵp cwmnïau Horizon, sy'n berchen i Hitachi, Ltd., yn datblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear i helpu i ddiwallu angen y Deyrnas Unedig ar gyfer ynni carbon isel diogel a fforddiadwy. Gall pŵer niwclear chwarae rhan hollbwysig o ran diwallu'r her o gynnal cyflenwadau sicr o ynni ar gyfer y Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â mynd i'r afael â bygythiad byd-eang newid yn yr hinsawdd drwy gyrraedd targedau lleihau allyriadau.

Fel rhan o'n Prosiect, rydyn ni'n bwriadu adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd, a fydd yn cael

ei galw'n 'Wylfa Newydd'. Bydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y Deyrnas Unedig (a gyflenwir gan Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd) ac offer, strwythurau a nodweddion cysylltiedig (yr Orsaf Bŵer), ynghyd â Datblygiadau Cysylltiedig i gefnogi'r gwaith. Bydd yr Orsaf Bŵer yn darparu o leiaf 2,700 megawat o drydan, sy'n ddigon o bŵer ar gyfer oddeutu pum miliwn o dai.

Bydd prif offer a strwythurau'r Orsaf Bŵer weithredol yn cael eu gosod ger yr orsaf bŵer Magnox bresennol, i'r gorllewin o Gemaes, Ynys Môn. Rydyn ni'n bwriadu cynhyrchu trydan yn Wylfa Newydd erbyn hanner cyntaf y 2020au.

Pŵer Niwclear Horizon – Ein gweledigaeth a'n bwriad

Rydyn ni'n credu bod taer angen pŵer niwclear newydd yn y Deyrnas Unedig er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her hollbwysig a chymhleth o ddarparu dyfodol ynni cynaliadwy. Fe fyddwn ni'n darparu ynni sicr, fforddiadwy a charbon isel ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Ein bwriad ydi adeiladu cwmni cyfleustodau niwclear newydd yn y Deyrnas Unedig a fydd ar flaen y gad, gan ddatblygu, adeiladu a gweithredu Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y Deyrnas Unedig ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaeroloyw.

Rhagor o wybodaeth:

www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL PŴER NIWCLEAR HORIZON

Beth ydy Datganiad o Ymgynghori Cymunedol a sut mae'n berthnasol i'r broses o roi cydsyniad?

Mae'r Orsaf Bŵer yn Brosiect Seilwaith sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol at ddibenion Deddf Cynllunio 2008 ac felly bydd angen i ni gyflwyno cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd i gael gorchymyn cydsyniad datblygu dan y Ddeddf honno i'w awdurdodi.

Mae ymgynghori'n rhan bwysig o'r broses cynllunio a datblygu, ac mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod datblygwyr yn rhoi llawer o gyhoeddusrwydd i'w cynigion ac yn ymgynghori â'r gymuned leol, awdurdodau lleol, cyrff statudol a phobl sydd â diddordeb yn y tir mae'r Prosiect Seilwaith sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol yn debyg o effeithio arno. 'Ymgynghoriad cyn ymgeisio' ydy'r enw ar y broses hon a rhaid gwneud hyn cyn i'r Arolygiaeth Gynllunio allu derbyn cais am orchymyn cydsyniad datblygu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn benodol, mae adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod datblygwyr yn paratoi Datganiad o Ymgynghori Cymunedol sy'n egluro sut byddan nhw'n ymgynghori â'r bobl y gallai datblygu Prosiect Seilwaith sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol effeithio arnyn nhw, gan gynnwys pobl sy'n byw yn agos at y cynigion. Gan hynny, mae'r ddogfen hon yn rhan bwysig o'r broses gydsyniad, gan ein tywys drwy ymgynghoriad effeithiol

ynghylch ein cynigion cyn gwneud cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

Ar ôl gwneud rhai newidiadau i'n dull arfaethedig ers cyhoeddi ein Datganiad cyntaf ar Ymgynghori Cymunedol ym mis Medi 2014, rydyn ni wedi cynhyrchu fersiwn wedi'i ddiweddarau erbyn hyn.

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cynllunio 2008, rydyn ni wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol perthnasol, Cyngor Sir Ynys Môn, ar fersiwn drafft o'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ac rydyn ni wedi ystyried ymateb y Cyngor. Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y broses ymgynghori cyn cyflwyno cais, a bydd yn cael ei wahodd gan yr Arolygiaeth Gynllunio i gynhyrchu 'Adroddiad ar yr Effaith Leol' ar ôl cyflwyno'r cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

Mae'r Datganiad hwn o Ymgynghori Cymunedol, sydd ar gael ar ein gwefan, mewn llyfrgelloedd ar draws Ynys Môn ac mewn digwyddiadau ymgynghori, yn cael ei hysbysebu mewn papurau newydd lleol a rhanbarthol sy'n cael eu dosbarthu'n ddyddiol neu'n wythnosol ar draws Ynys Môn a gogledd Cymru, a'r bwriad ydy helpu aelodau o'r gymuned i ddeall beth fyddwn ni'n ymgynghori â nhw yn ei gylch.

Mae'n egluro:

- **Beth** rydyn ni'n cynnig ei ddatblygu – gan gynnwys disgrifiad cryno o:

- y broses o roi cydsyniad gan gynnwys sut mae effeithiau amgylcheddol yn cael eu hasesu er mwyn nodi manteision ac effeithiau andwyol posibl Prosiect Seilwaith sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol; a
- Prosiect Wylfa Newydd.

- **Pryd** byddwn ni'n ymgynghori;
- **Ble** byddwn ni'n ymgynghori ac â phwy;
- **Sut** byddwn ni'n ymgynghori â phobl, grwpiau a mudiadau cymunedol; a
- **Sut** mae modd i bobl ymateb i'r ymgynghoriad a chanfod sut mae'r adborth wedi cael ei ystyried.

Does dim modd cynnwys rhai elfennau o Brosiect Wylfa Newydd, o'r enw 'datblygiadau cysylltiedig', yn y cais am orchymyn cydsyniad datblygu ac yn lle hynny fe fyddan nhw'n rhan o geisiadau cynllunio ar wahân, a Chyngor Sir Ynys Môn fydd yn penderfynu ar y rheiny, neu drwy brosesau cydsyniad eraill. Dydy'r gofynion dan Ddeddf Cynllunio 2008 sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio ddim yn hollol berthnasol i'r elfennau hynny.

Serch hynny, er mwyn rhoi gwybodaeth am yr holl brosiect i'r gymuned leol ac i randdeiliaid eraill, fe fyddwn ni'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am yr holl elfennau hynny o Brosiect Wylfa Newydd yn ystod ein hymgynghoriad cyn ymgeisio. Byddwn yn cofnodi ac yn dadansoddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio a fydd yn ymwneud â'r datblygiadau cysylltiedig, er y bydd yr ymgynghoriad ffurfiol ar ôl ymgeisio ynghylch y rhain yn cael ei gynnal gan Gyngor

Sir Ynys Môn ar ôl i'r ceisiadau cynllunio gael eu cyflwyno.

Fe fyddwn ni'n sicrhau bod yr ymgynghori'n ystyrllon, yn gynhwysol ac yn glir drwy ddarparu gwybodaeth mae modd ei deall yn hawdd. Bydd hyn yn ennyn sylwadau adeiladol sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch Prosiect Wylfa Newydd. Bydd deunyddiau ymgynghori'n egluro elfennau o'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'r rhai dydyn ni ddim yn ymgynghori yn eu cylch, ac yn gofyn am safbwyntiau'r gymuned leol. Er enghraifft, mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud yn barod i ddefnyddio Adweithyddion Dŵr Berwedig Uwch y Deyrnas Unedig yn ein Gorsaf Bŵer.

Y BROSES CYDSYNIAD DATBLYGU

Mae ymgynghori cyn ymgeisio yn bwysig yn y broses cydsyniad datblygu ac archwilio gan ei fod yn rhoi cyfle i ni ddeall pryderon y bobl byddwn ni'n ymgynghori â nhw a cheisio dod o hyd i ffyrdd o liniaru effeithiau anffafriol posibl y datblygiad cyn cyflwyno ein cais i'r Arolygiaeth Gynllunio ei archwilio.

Bydd angen i'r Arolygiaeth Gynllunio fod yn fodlon ein bod ni wedi cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio yn effeithiol, yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008. Yn dilyn archwiliad o'r cais, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi gorchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Newydd Wylfa.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod polisïau mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried, a rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu, ar ein cais am orchymyn cydsyniad datblygu yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol canlynol:

- Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni (NPS EN-1);
- Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Gynhyrchu Ynni Niwclear (NPS EN-6) sy'n dynodi Wylfa fel un o nifer bach o safleoedd yn y Deyrnas Unedig mae'r

Llywodraeth yn credu a allai fod yn addas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd.

Gyda'i gilydd, mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol hyn yn pennu bod taer angen capasiti newydd i gynhyrchu trydan, gan gynnwys niwclear. Mae EN-6 yn datgan yn glir y dylid asesu cais am orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd ar y sail "bod yr angen am seilwaith o'r fath wedi cael ei ddangos" ac mae'n mynd ymlaen i ddynodi bod safle yn Wylfa yn un a allai fod yn addas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. O'r herwydd, fyddwn ni ddim yn ymgynghori ynghylch yr egwyddor o bŵer niwclear, na pha mor addas ydy'r Safle ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. Yn lle hynny, bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y cynigion neu'r dewisiadau penodol rydyn ni'n eu cyflwyno.

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL

PŴER NIWCLEAR HORIZON

SUT MAE EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL YN CAEL EU HASESU

Mae'r Orsaf Bŵer arfaethedig yn cael ei chyfrif fel datblygiad asesu effeithiau amgylcheddol at ddibenion Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid paratoi datganiad amgylcheddol i'w gyflwyno gyda'r cais am orchymyn cydsyniad datblygu. Roedden ni wedi cyflwyno cais cwmpasu i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (y sefydliad a oedd yn arfer delio â cheisiadau ar gyfer Prosiectau Seilwaith sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol) ym mis Tachwedd 2009, ac rydyn ni'n bwriadu rhoi fersiwn wedi'i ddiweddarau o hwn i'r Arolygiaeth Gynllunio yn gynnar yn 2016.

Cyhoeddodd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith farn gwmpasu ym mis Ebrill 2010, a oedd yn gosod ei farn yn ffurfiol ynghylch pa wybodaeth y dylid ei darparu yn ein datganiad amgylcheddol. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymgymryd â'r ymgynghoriadau angenrheidiol ac yn cyhoeddi barn gwmpasu wedi'i diwygio maes o law ar ôl cyflwyno ein cais cwmpasu diwygiedig. Bydd hyn yn golygu bod modd i ni addasu ein dull o asesu'r effaith amgylcheddol a chynnwys ein datganiad amgylcheddol.

Fe wnaethon ni ymgynghori ar wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol yn ystod rownd gyntaf ein hymgynghoriad cyn ymgeisio ddiwedd 2014.

Fe wnawn ni ddarparu adroddiadau gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol wedi eu diweddarau i'r holl bartïon sydd â diddordeb yn ystod ail rownd ein hymgynghori cyn ymgeisio yn ddiweddarach yn 2016. Mae'r adroddiadau hyn yn cyflwyno ein dealltwriaeth bresennol o effeithiau amgylcheddol posibl y cynigion adeg cynnal yr ymgynghoriad. Bydd canfyddiadau cyflawn ein hasesiad o'r effaith amgylcheddol yn cael eu cynnwys yn y datganiad amgylcheddol a fydd yn cael ei gyflwyno gyda'n cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

Prosiect Wylfa Newydd

BETH SY’N CAEL EI GYNNIG?

Y prif ddatblygiad parhaol fydd yr Orsaf Bŵer (sydd wedi’i chynnwys yn ein cais ar gyfer gorchymyn cydsyniad datblygu), a fydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y Deyrnas Unedig ac adeiladau cefnogol cysylltiedig ynghyd â’r tyrbinau stêm, generaduron trydan ac offer cysylltiedig (fel y strwythur dŵr oeri a’r morgloddiau), adeiladau i storio gwastraff a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio, a strwythurau a nodweddion cefnogol (fel ffyrdd a gwaith tirweddu).

Yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai nifer o gompowndiau adeiladu dros dro yn cael eu creu. Mae disgwyl y bydd cyfleuster dadlwytho morol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer derbyn nwyddau a fydd yn dod yn uniongyrchol i Safle’r Orsaf Bŵer dros y môr.

Byddai hefyd angen darparu cyfleusterau cyfannol oddi ar y safle er mwyn gweithredu’r Orsaf Bŵer (fel garej offer argyfwng symudol, canolfan rheoli argyfwng amgen a labordy arolygon amgylcheddol) - byddai’r rhain yn lleol ond ar wahân i safle’r orsaf bŵer. Yn amodol ar gael cytundeb terfynol gyda rhanddeiliaid allweddol, byddai’r rhain yn cael eu cynnwys yn y cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

Bydd angen caniatâd ar gyfer gwella’r ffyrdd fel datblygiadau cysylltiedig drwy gais cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae'n debyg y bydd angen nifer o ddatblygiadau cysylltiedig eraill er mwyn cefnogi'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bêr. Bydd angen caniatâd cynllunio ar y rhain hefyd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac oherwydd byddai'r rhain yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau parcio a theithio, llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle a chanolfan logisteg. Rydyn ni'n edrych ar fanteision posibl i'r dyfodol rhai o'r datblygiadau hyn ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben, fel y posibilrwydd i rywffaint o'r llety dros dro ddod yn stoc dai barhaol.

Mae Bil drafft Cymru (Hydref 2015) yn cyflwyno'r posibilrwydd y gallai datblygiadau cysylltiedig gael eu cynnwys mewn ceisiadau am orchmynion cydsyniad datblygu yng Nghymru am y tro cyntaf. Byddwn yn monitro hynt y Bil gyda'r Arolygiaeth Gynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rydyn ni'n dal i fwriadu mynd â'r datblygiadau cysylltiedig yn eu blaenau drwy geisiadau cynllunio dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a byddai unrhyw benderfyniad ynghylch newid y llwybr ar gyfer rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiadau hyn yn cael ei wneud mewn ffordd dryloyw a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n eang drwy ein dogfennau ymgynghori.

Efallai byddwn ni hefyd yn cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn am rywffaint o waith cynnar i baratoi'r safle ar gyfer ei ddatblygu cyn y cais am orchmyn cydsyniad datblygu.

Ar ben hynny, bydd angen i ni wneud cais am Drwydded Forol, yn ogystal â chaniatadau amgylcheddol eraill.

Mae angen cysylltu'r Orsaf Bŵer â rhwydwaith trawsyrru trydan National Grid, ac mae National Grid yn ymgynghori ar wahân ar y cais am orchymyn cydsyniad datblygu angenrheidiol.

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL

PŴER NIWCLEAR HORIZON

EFFEITHIAU POSIBL

Byddai Prosiect Wylfa Newydd yn golygu buddsoddiad a manteision sylweddol (biliynau o bunnoedd) i economi Ynys Môn a gogledd Cymru.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n meddwl y byddwn ni angen rhwng 8,000 a 10,000 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnodau prysuraf. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr adeiladu yn Safle'r Orsaf Bŵer, Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig. Bydd y Prosiect hefyd yn creu ac yn cefnogi rhagor o gyfleoedd cyflogaeth a chadwyn gyflenwi mewn gwasanaethau a diwydiannau cefnogol.

Pan fydd ar waith, rydyn ni'n disgwyl y bydd hyd at 850 o swyddi parhaol yn yr Orsaf Bŵer ar draws amrywiaeth eang o rolau. Fe fydd yn rhaid cael tua 1,000 o weithwyr ychwanegol yn ystod cyfnodau segur y safle a fydd wedi cael eu cynllunio ar gyfer cynnal a chadw.

Byddai Prosiect Wylfa Newydd yn gynllun adeiladu mawr, gyda gweithgareddau mawr yn digwydd ar safle'r orsaf bŵer a'r ardal gyfagos dros nifer o flynyddoedd. Ar ôl ei hadeiladu, byddai'r Orsaf Bŵer yn dod yn nodwedd amlwg yn y dirwedd.

Er mwyn rhoi cyfleoedd i chi roi sylwadau, bydd ein deunyddiau ymgynghori yn amlinellu ein cynigion sy'n esblygu yn y cyfnod cyn gwneud cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am effeithiau posibl y cynigion ar gymunedau ac ar yr amgylchedd (gan gynnwys effeithiau cronus ein Prosiect gyda datblygiadau eraill sy'n digwydd ar adeg debyg), gan roi sylw i faterion fel nodweddion economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, hamdden, traffig a thrafnidiaeth, sŵn, ansawdd yr aer, priddoedd, hydroleg, ecoleg, llanw a cherrynt y môr, tirwedd a golygfeydd. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi ar fesurau rydyn ni'n eu cynnig i ostwng unrhyw effaith andwyol bosibl fel gwaith tirweddu a darparu nodweddion a chynefinoedd bywyd gwyllt newydd. Bydd ein gwybodaeth ymgynghori hefyd yn cynnwys manylion am fanteision posibl y Prosiect i gymunedau ac i'r amgylchedd.

Ffigur 3: Yr amserlen a'r cyfnodau a gynigir ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd



Pryd byddwn ni'n ymgynghori ynghylch Prosiect Wylfa Newydd?

Ein dull fydd cynnal dau brif gam yn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ffurfiol, cyn cyflwyno ein cais am orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer yr Orsaf Bŵer. Cynhaliwyd Cam Un tua diwedd 2014, a disgwylir y bydd yr ail gam (Cam Dau) yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn 2016.

I raddau helaeth bydd union amseriad yr ail gam (Cam Dau) yn dibynnu ar y materion a fydd yn codi o'n gweithgareddau ymgysylltu parhaus, serch hynny bydd yn cael ei gynnal yn ystod ail hanner 2016.

Byddwn ni'n cyhoeddi manylion am ddyddiadau, lleoliadau ac amseroedd y digwyddiadau ymgynghori, a lle mae modd cael gafael ar ddogfennau, o leiaf fis ymlaen llaw drwy ein gwefan –

www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad - a hysbysebion mewn papurau newydd lleol. Bydd yr ail gam yn ymgynghoriad statudol i ddiwallu gofynion adrannau 42, 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio 2008.

Ar ôl i ni ddadansoddi ac ystyried adborth yr ymgynghoriad, rydyn ni'n cynnig gwneud ein cais am orchymyn cydsyniad datblygu yn 2017.

Fe fyddwn ni hefyd yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu wedi eu targedu i barhau â'r ddeialog gyda'r gymuned rhwng dau gam yr ymgynghoriad cyn ymgeisio. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau yn gynnar yn 2016, a


fydd yn canolbwyntio ar y newidiadau i'r Prosiect ers yr ymgynghoriad cyn ymgeisio Cam Un.

Er mwyn sicrhau bod y gymuned yn gallu deall y prosiect yn ei gyfanrwydd, bydd digwyddiadau o'r fath yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â'r rhannau hynny sy'n perthyn i'r gorchymyn cydsyniad datblygu ac i'r ceisiadau cynllunio ar wahân ar gyfer datblygiadau cysylltiedig.

Byddai rhai o'r digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar faterion penodol neu'n targedu grwpiau neu gymunedau penodol, ac fe fyddwn ni hefyd yn parhau i gynnal ein hymgysylltiad cymunedol rheolaidd drwy gymorthfeydd agored a Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd, rhwng camau'r ymgynghoriad cyn ymgeisio a thu hwnt i hynny. Bydd yr holl ddigwyddiadau ymgysylltu hyn yn cael llawer o sylw ymlaen llaw mewn papurau newydd lleol ac ar ein gwefan

www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad.

Ffigur 4: Ein dull ymgynghori



PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL

PŴER NIWCLEAR HORIZON

Ble rydyn ni'n ymgynghori ac â phwy?

Byddwn yn dal i ymgynghori â'r cymunedau a nodir yn Ffigur 5 uchod, ar draws Parthau A, B ac C. Serch hynny, mae croeso i unrhyw un gyflwyno adborth ar ein cynigion ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a bydd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn eang, er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn effeithiol ac o fewn cyrraedd pawb.

Bydd ein proses ymgynghori'n cael ei chynnal dros dri 'pharth' (gweler Ffigur 5), sef:

- **Parth A** – Ynys Môn, sef yr ardal sydd fwyaf tebyg o weld effeithiau uniongyrchol Prosiect Wylfa Newydd;
- **Parth B** – Ardal Gwynedd (Arfon), sy'n cynnwys Bangor a Chaernarfon; a
- **Parth C** – gogledd orllewin Cymru, fel y diffinnir yr ardal gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys canolfannau allweddol o ran poblogaeth a busnesau, fel Llandudno a Phorthmadog.

Rydyn ni'n cydnabod y bydd gan drigolion, cymunedau, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill ofynion gwahanol o ran gwybodaeth, a bydd ein proses ymgynghori yn adlewyrchu hyn. Er enghraifft, ym Mharth A, rydyn ni'n disgwyl y bydd llawer o'r trafodaethau'n canolbwyntio ar

effeithiau uniongyrchol y gwaith adeiladu a gweithredu, ond ym Mharth C, efallai y bydd mwy o ddiddordeb mewn materion economaidd a chymdeithasol ehangach, fel cyfleoedd cyflogaeth.


Fe fyddwn ni'n targedu digwyddiadau ymgysylltu'n briodol at y rhai sydd fwyaf tebygol o weld effeithiau Prosiect Wylfa Newydd, gan gydnabod efallai y bydd y rhai a fydd yn gweld effeithiau llai uniongyrchol hefyd eisiau cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori.

Yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd yn ehangach a'u cynrychiolwyr, fe fyddwn ni hefyd yn gweithio gyda grwpiau penodol, busnesau lleol, cynghorau cymuned a mudiadau eraill i gynyddu'r ymwybyddiaeth o'r broses ymgynghori. Er mwyn helpu i sicrhau bod yr ymgynghoriad o fewn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, rydyn ni wedi datblygu Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant. Mae copi o hon wedi cael ei lwytho i fyny ar ein gwefan ac mae copïau caled ar gael ar gais. Nod hon ydy sicrhau ein bod ni'n gweithio gyda mudiadau ar draws y gymuned i sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd rhesymol i gael gafael ar wybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd ac ymateb i'r ymgynghoriad os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Yn benodol, byddwn ni'n parhau i weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddefnyddio arferion ymgynghori da sy'n berthnasol yn lleol, fel y rheini sydd wedi cael eu datblygu drwy'r prosiect Llais Cymunedol, a chefnogi gwaith Swyddogion Cynnwys y Gymuned.

Fe wnawn ni weithio gyda sefydliadau ar draws y gymuned i ddarparu gwybodaeth i bobl am ein Prosiect Wylfa Newydd a sicrhau eu bod nhw'n cael cyfleoedd priodol i ymateb. Bydd hyn yn rhan annatod o'n holl weithgarwch ymgynghori.

Ffigur 5: Parthau ymgynghori



Sut byddwn ni'n ymgynghori?

Roedd ymgynghoriad Can Un wedi para deg wythnos a bydd ymgynghoriad Cam Dau yn weddol debyg. Yn yr un modd â Cham Un, bydd hyn yn cael ei strwythuro o amgylch cyfres o ddigwyddiadau arddangos a sesiynau galw draw sy'n rhoi cyfle i bobl gwrdd â'n tîm a gofyn cwestiynau. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal ar draws Parthau A, B ac C ac fe fyddan nhw'n cael eu targedu at y rhai y mae disgwyl y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn effeithio arnyn nhw fwyaf. Bydd yr ymgynghoriadau'n cynnwys trosolwg, crynodeb a deunyddiau arddangos yn Gymraeg a Saesneg, ac fe fyddan nhw wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith glir a hawdd ei darllen.

Fe wnawn ni gynnal arddangosfeydd mewn mannau lle gwelwyd bod nifer uchel o bobl, gan gynnwys gweithleoedd a sefydliadau addysg ac iechyd. Fe fydd hyn yn rhoi cyfleoedd i bobl na fydden nhw fel arall yn ymgysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect a rhoi adborth.

Bydd aelodau'r gymuned sydd â diddordeb ym Mhrosiect Wylfa Newydd hefyd yn gallu cael gafael ar wybodaeth mewn llyfrgelloedd lleol ac adeiladau dinesig eraill, er na fydd staff yn yr arddangosfeydd hyn oni nodir fel arall.

Bydd y deunyddiau a fydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'n ddwyieithog. Bydd cylchlythyrau sy'n cynnwys

gwybodaeth am gynnydd Prosiect Wylfa Newydd yn parhau i gael eu dosbarthu'n rheolaidd i bob tŷ ar Ynys Môn.

Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael yn y digwyddiadau lle bydd staff ac rydyn ni'n croesawu adborth i'r ymgynghoriad yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ein dogfennau trosolwg a chrynodeb yn cynnwys manylion ynghylch sut mae gwneud cais am wybodaeth mewn print bras ac mae gennym rif rhadffôn er mwyn helpu gydag ymholiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar 0800 954 9516.

Bydd arddangosfeydd sy'n cael eu cynnal yn ystod dau gam ffurfiol yr ymgynghoriad yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth fanylach, gan gynnwys mapiau a diagramau cefnogol, y dogfennau ymgynghori llawn, adroddiadau gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol a gwybodaeth dechnegol berthnasol arall. Ar ben hynny, bydd y dogfennau ymgynghori ffurfiol ar Gam Un a Cham Dau ar gael ar ein gwefan

www.horizonnuclearpower.com/ymgyngghoriad lle byddwn ni'n rhoi cynnig i bobl gofrestru a chyflwyno sylwadau ar y cynigion.

SUT BYDD YR YMGYNGHORIAD YN CAEL EI HYSBYSEBU?

Byddwn yn defnyddio sawl ffordd o roi gwybod am y broses ymgynghori a sicrhau bod y gymuned yn gallu cymryd rhan. Byddwn yn ystyried pob math o gyfryngau addas ar gyfer cyfathrebu a byddwn yn gweithio gyda

grwpiau cynrychioladol, gan gynnwys Tîm Cyfathrebu Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau ein bod mod effeithiol â phosibl.

Bydd hyn o leiaf yn cynnwys:

- **Cylchlythrau** – Mae ein Newyddion i'r Gymuned yn cael ei ddanfôn i oddeutu 33,000 o gartrefi ar draws Ynys Môn ac mae modd ei lwytho i lawr oddi ar ein gwefan. Mae'n cynnwys manylion ynghylch yr ymgynghoriad, gan gynnwys sut mae cymryd rhan a lle mae modd cael gafael ar ragor o wybodaeth. Fe fyddwn ni'n cyhoeddi rhifyn cyn ymgynghori cyn bob prif gam o'r ymgynghoriad.
- **Hysbysebion yn y wasg** – Byddwn yn rhoi hysbysebion mewn amrywiaeth o gyhoeddiadau lleol gan roi manylion ein hymgyngghoriad, gan gynnwys lleoliadau ac amser y digwyddiadau, mewn cyfryngau lleol a rhanbarthol Cymraeg a Saesneg.
- **Datganiadau i'r wasg** – Bydd digwyddiadau ymgynghori'n cael eu cyhoeddi drwy ddatganiadau i'r wasg ac fe fyddwn ni'n cynnig sesiynau briffio i'r wasg ar gyfer pob cyhoeddiad lleol, eto yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- **Posterï** – Bydd posterï'n cael eu rhoi mewn adeiladau dinesig fel llyfrgelloedd a neuaddau cymunedol ac fe fyddan nhw'n cael eu rhoi i grwpiau a mudiadau cymunedol. Bydd y rhain yn rhoi manylion lleoliadau digwyddiadau a sut mae modd i bobl gael gwybod mwy am yr ymgynghoriad.
- **Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd** – Mae hwn yn grŵp cyswllt rhanddeiliaid annibynnol a'i nod ydy

sianelu gwybodaeth gennym ni drwy gynrychiolwyr cymunedol i'r gymuned drwyddi draw. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddechrau pob prif gam o'r prif ymgynghoriad er mwyn trafod sut gall pobl gymryd rhan.

- **Grwpiau a mudiadau rhanddeiliaid** – Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o rhanddeiliaid a mudiadau i sicrhau eu bod yn gwybod am yr ymgynghoriad a, phan fydd yn briodol, byddwn yn rhoi manylion ynghylch sut gall pobl gymryd rhan.
- **Gwefan** – Bydd pob dogfen ymgynghori a manylion ynghylch pob cam o'r ymgynghoriad, gan gynnwys lleoliad ac amser y digwyddiadau, ar gael ar ein gwefan www.horizonnuclearpower.com/ ymgynghoriad ac fe fyddwn ni'n cyfeirio at y wefan yn ein holl lenyddiaeth.
- **Cyfryngau cymdeithasol** – I ddechrau fe fyddwn ni'n defnyddio Twitter ac YouTube i roi cyhoeddusrwydd i bob cam o'r ymgynghoriad gan gyflwyno sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill fel sy'n briodol. Fe fyddwn ni hefyd yn adolygu'r gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol i nodi unrhyw fater allweddol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'n Prosiect.
- **Cyfryngau eraill** – Fe fyddwn ni'n cysylltu â chyfryngau lleol (ee gorsafoedd radio a phapurau newydd) cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad i sicrhau bod pobl leol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

PROSIECT WYLFA NEWYDD – DATGANIAD O YMGYNGHORI CYMUNEDOL

PŴER NIWCLEAR HORIZON

Sut gallaf ymateb?

Mae eich ymateb chi i'n hymgyngoriad cyhoeddus yn rhan bwysig iawn o'r broses ymgynghori cyn ymgeisio ac mae croeso i chi gyflwyno eich ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae sawl ffordd i chi ymateb:

- **Drwy ffurflen adborth** sydd ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori, yn y dogfennau ymgynghori ac ar-lein yn:
www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad
Mae'r rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- **Yn ysgrifenedig** i'r cyfeiriad rhadbost **FREEPOST
Horizon Nuclear Power Consultation**
- **Drwy e-bost** at
yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

Mae gennym hefyd linell radffôn Gymraeg a Saesneg i ateb eich cwestiynau a'ch yholiadau unrhyw bryd. Gallwch chi gysylltu â ni ar: **0800 954 9516**.

BETH FYDD YN DIGWYDD I FY YMATEBION?

Bydd pob ymateb yn cael ei gofnodi, ei adolygu a'i ystyried fel rhan o'r broses ymgynghori a bydd yn cael ei storio'n ddiogel ar ein rhan. Byddwn yn pwyso ac yn mesur yr ymatebion fel y maen nhw'n berthnasol i'r

gorchymyn cydsyniad datblygu a'r ceisiadau cynllunio ar wahân ar gyfer y datblygiadau cysylltiedig. Bydd ymgynghoriad ffurfiol ar ôl y cais ynghylch y datblygiadau cysylltiedig yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ôl cyflwyno'r ceisiadau cynllunio.

Yn gynnar yn 2016 byddwn yn cynhyrchu crynodeb o'r adborth a ddaeth i law yn ystod ein hymgyngoriad Cam Un a fydd yn rhoi manylion themâu'r ymatebion.

Bydd Adroddiad Ymgynghoriad Terfynol yn cael ei gyflwyno gyda'r cais am orchymyn cydsyniad datblygu, yn egluro'r broses a ddefnyddiwyd gennym wrth ddelio ag ymatebion i'r ymgynghoriad. Pan fyddwn ni heb newid ein cynigion i adlewyrchu sylw, byddwn yn egluro ein rhesymau dros wneud hynny.

YMGYNGHORIADAU MAWR ERAILL

Efallai y bydd hyrwyddwyr Prosiectau Seilwaith eraill sydd â Phwysigrwydd Cenedlaethol yn y parthau ymgynghori yn ymgynghori â'r gymuned leol. Rydyn ni'n gwybod bod National Grid yn datblygu cynigion ar gyfer uwchraddio ei systemau trawsyrru ac fe fyddwn ni'n ceisio osgoi trefnu digwyddiadau ymgynghori a fydd yn cyd-daro â'r ymgynghoriadau eraill hyn pan fo hynny'n bosibl.

Os hoffech chi gael fersiwn testun mawr neu fersiwn arall o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar **0800 954 9516** neu ewch i'n gwefan:

www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad

HORIZON NUCLEAR POWER

CYSYLLTU Â NI:

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu adborth ynghylch Prosiect Wylfa Newydd gallwch chi gysylltu â ni ar ein llinell gymorth radffôn Wylfa Newydd arbennig a'n cyfeiriad e-bost, drwy ffonio **0800 954 9516** neu e-bostio ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

**Pŵer Niwclear Horizon
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE**

T +44 (0) 845 300 6816

www.horizonnuclearpower.com/hafan

Mae'r holl ddeunydd sydd yn y ddogfen hon, oni nodir fel arall, yn hawlfraint i Pŵer Niwclear Horizon Wylfa Cyf, ac ni cheir ei atgynhyrchu heb ganiatâd ymlaen llaw. Gall defnyddio neu gopïo'r deunydd heb awdurdod mewn unrhyw ffordd dorri rheolau nod masnach, hawlfraint a hawliau eiddo eraill a statudau sifil a throreddol. Ni cheir defnyddio'r deunydd mewn unrhyw ffordd sy'n torri unrhyw nod masnach, hawlfraint na hawliau eiddo eraill ac mae Pŵer Niwclear Horizon Wylfa Cyf yn cadw pob hawl mewn perthynas â defnyddio heb awdurdod o'r fath.